Busnes Cymru | Business Wales

# Rheoli eich Cyllid Mentrau Iaith Cymru

Undeb Ewropeaidd / European Union

Llywodraeth Cymru / Welsh Government

Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop

European Regional Development Fund

GWYBODAETH YMARFEROL

## MOESAU GWEMINAR

- Mae croeso i chi ofyn cwestiynau trwy sgwrs (chat)
- Mae'r holl feicroffonau (ac eithro un fi) i gael eu diffodd
- Byddwch yn barchus
- 45-60 munud yn dibynnu ar gwestiynau
- Bydd recordiad o'r weminar yn cael ei e-bostio i chi.

Busnes Cymru | Business Wales

# CYFRIFOLDEBAU YMDDIRIEDOLWYR

Ymddiriedolwyr elusen yw'r bobl sy'n gwasanaethu ar gorff llywodraethu elusen. Efallai y gelwir nhw yn ymddiriedolwyr, cyfarwyddwyr, aelodau bwrdd, llywodraethwyr neu'n aelodau pwyllgor ayb. Beth bynnag yw eu henw, mae unrhyw un sy'n gyfrifol am redeg a rheoli gweinyddiaeth elusen yn cael ei ddosbarthu fel ymddiriedolwr elusen (Deddf Elusennau 2011, adran 177).

Ymddiriedolwyr elusen sydd yn y pen draw yn gyfrifol am gyfarwyddo busnes eu helusen, a rhaid iddynt dderbyn y cyfrifoldeb hwn. Mae'n golygu sicrhau ei bod yn ddiddyled ac yn cael ei rhedeg yn dda, ac yn darparu'r canlyniadau elusennol er budd y cyhoedd y cafodd ei sefydlu ar eu cyfer.

Busnes Cymru | Business Wales

# Sut mae diwallu cyfrifoldebau?

**GWYBODAETH RHEOLAETH CYSON**

**PENNU CYLLIDEBAU MANWL**

**DIRPRWYO EFFEITHIOL**

Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
European Regional Development Fund

# Datganiadau Ariannol Sylfaenol

- Rhagolwg Llif Arian;
- Cyfrif Elw a Cholled;
- Mantolen Ariannol.






## BETH YW LLIF ARIAN?

- Mae rhagolwg llif arian yn dangos faint o arian mae’r busnes yn bwriadu ei dderbyn a'i dalu dros gyfnod o amser.
- Yn nodweddiadol daw arian ‘i fewn’ o werthiannau ac arian parod a gyflwynwyd (ee. benthyciadau, cynilion, buddsoddiad, grantiau).
- Arian sy’n mynd ‘allan’ fydd costau busnes, megis rhent busnes, yswiriant, costau staff, ad-daliadau benthyciad / cyllid, tyniadau a stoc / deunyddiau crai.
- Gall busnes ddefnyddio llif arian i nodi heriau a chyfleoedd, ee. prinder arian parod
- Er bod llif arian fel arfer yn cael ei baratoi am gyfnod o 12 mis, gellir creu rhagolwg byrrach ar gyfer sefyllfa o argyfwng.
- Mae rhagolygon llif arian yn aml yn ofynol wrth wneud cais am fenthyciadau, buddsoddiadau, grantiau ac ati.
- BLAENORIAETH YW RHEOLI ARIAN

Busnes Cymru | Business Wales

1. Incwm

2. Costau

3. Y gwahaniaeth rhwng Incwm a Chostau

4. Ar ddechrau'r mis

5. Ar ddiwedd y mis

| | Ionawr | Chwefror | Mawrth | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| **Incwm (arian i mewn)** | | | | |
| Gwerthiant | 2,000 | 2,000 | 2,500 | 6,500 |
| Buddsoddiad Personol | 2,500 | | | 2,500 |
| **CYFANSWM INCWM** | **4,500** | **2,000** | **2,500** | **9,000** |
| **Costau (arian sy'n mynd allan)** | | | | |
| Cyflogau | | | 500 | 500 |
| Tyniadau | 1,000 | 1,000 | 1,000 | 3,000 |
| Rhent | 150 | 150 | 150 | 450 |
| Cyfrifiadur | 40 | 40 | 40 | 120 |
| Offer cychwynol | 2,500 | | | 2,500 |
| Trydan | 85 | | | 85 |
| Ffôn | 30 | 30 | 30 | 90 |
| Marchnata | | 250 | 250 | 500 |
| Cynhwysion | 250 | 250 | 350 | 850 |
| **CYFANSWM COSTAU** | **4,055** | **1,720** | **2,320** | **8,095** |
| | | | | |
| **LLIF ARIAN NET** | 445 | 280 | 180 | 905 |
| | | | | |
| Balans Agoriadol | 0 | 445 | 725 | 0 |
| Balans Cau | 445 | 725 | 905 | 905 |

## ENGHRAIFFT LLIF ARIAN

Busnes Cymru | Business Wales

# Creu Rhagolwg Llif Arian

- Amcangyfrif cyfanswm yr incwm ar gyfer pob mis (arian i fewn):
  - ➢ Arian parod/Taliadau â dderbyniwyd;
  - ➢ Cofnodi gwerthiannau credyd yn ystod y mis yr ydych yn disgwyl eu derbyn/cael eich talu.
- Amcangyfrif cyfanswm y costau ar gyfer pob mis (arian sy'n mynd allan):
  - ➢ Pryd y byddwch yn gwario'r arian (ym mha fis).
- Cyfrifo eich llif arian Net misol:
  - ➢ Cyfanswm Incwm – Cyfanswm Costau.
- Cyfrifo y balans agoriadol a'r balans cau ar gyfer pob mis.

# Cyfalaf Gweithio

## Paint sydd ei angen arnoch er mwyn rhedeg y busnes

| Mis | 1 | 2 | 3 |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm Gwerthiant | 500 | 1,000 | 2,000 |
| Cyfanswm Costau Refeniw | 1,000 | 1,200 | 1,000 |
| Cyfalaf gweithio | -500 | -200 | 1,000 |
| | | | |
| Cyfalaf Gweithio Cronnus | -500 | -700 | 300 |

Angen £500 er mwyn talu'r costau

Angen £200 arall er mwyn talu'r costau

£1,000 ar gael ar ôl costau
OND
£300 ar ôl diffyg talu yn ôl am mis 1 a 2

# C Y F A L A F  G W E I T H I O

| | Cynnydd Diwrnodau | Lleihad Diwrnodau |
|---|---|---|
| **Dyledwyr (Ased)** | Defnydd Arian Parod<br>Angen mwy o gyllid | Ffynhonell Arian Parod<br>Angen llai o gyllid |
| **Stoc (Ased)** | Defnydd Arian Parod<br>Angen mwy o gyllid | Ffynhonell Arian Parod<br>Angen llai o gyllid |
| **Credydwyr (Rhwymedigaeth)** | Ffynhonell Arian Parod<br>Angen llai o gyllid | Defnydd Arian Parod<br>Angen mwy o gyllid |

**Cyfalaf Gweithredol**

**LLEIHAD ASEDAU + CYNNYDD RHWYMEDIGAETHAU = FFYNHONELL ARIAN PAROD**

**CYNNYDD ASEDAU + LLEIHAD RHWYMEDIGAETHAU = DEFNYDD ARIAN**

Undeb Ewropeaidd European Union
Llywodraeth Cymru Welsh Government
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
European Regional Development Fund

# Defnyddio Llif Arian er mwyn osgoi problemau

| | Ionawr | |
|---|---|---|
| | Rhagolwg | Mewn gwirionedd |
| Gwerthiant | 2,000 | 1,500 |
| Buddsoddiad Personol | 2,500 | 2,500 |
| **CYFANSWM INCWM** | **4,500** | **4,000** |
| Cyfrifiadur | 40 | 45 |
| Offer cychwynol | 2,500 | 2,450 |
| Cynhwysion | 250 | 345 |
| **CYFANSWM COSTAU** | **2,790** | **2,840** |
| **LLIF ARIAN NET** | **1,710** | **1,160** |
| Balans Agoriadol | 0 | 0 |
| Balans Cau | 1,710 | 1,160 |

← Llai na'r disgwyl (Gwerthiant)

← Cyfalaf cychwyn (Buddsoddiad Personol)

← Llogi/prynu/(HP) mwy na'r disgwyl (Cyfrifiadur)

← Cael bargen dda (Offer cychwynol)

← Uwch na'r disgwyl (Cynhwysion)

← Beth mae hyn yn ei olygu ar gyfer Chwefror, Mawrth ac yyb? (Balans Cau)



Busnes Cymru | Business Wales

# Cael eich Talu

- Cael telerau talu clir;
- Anfonebu yn rheolaidd – cyn gynted ac y bydd y Gwaith wedi'i gwblhau;
- Gwneud anfondebau'n glir;
- Cadwch mewn cysylltiad â chwsmeriaid;
- Atgoffwch nhw fod taliad yn ddyledus;
- Os nad ydynt yn talu ar amser, rhaid dilyn fyny;
- Daliwch ati i ofyn;
- Os yw'r broblem yn parhau, ystyriwch gweithredu ymhellach.

# Cyfrif Elw a Cholled

- Perfformiad ariannol dros gyfnod penodol;
- Defnyddir gan Gyllid a Thollau EM (HMRC) i wirio treth a chyfraniadau Yswiriant Gwladol (NI) Dosbarth 4;
- Yn cynnwys gwerthiannau â anfonebwyd ond heb eu talu eto (oni bai bod cyfrifyddu ar sail arian parod);
- Yn cynnwys treuliau na thalwyd amdanynt eto (oni bai bod cyfrifyddu ar sail arian parod);
- Yn cynnwys dyledion drwg a lwfans buddsoddi/dibrisiant;
- Nid yw'n cynnwys tyniadau na Yswiriant Gwladol;
- Nid yw'n cynnwys TAW (ar werthiannau na chostau).

# Cyfrif Elw a Cholled

Cyfanswm Gwerthiant â anfonebwyd

Cyfanswm côst cynhyrchu'r gwerthiant hyn

| | |
|---|---|
| Gwerthiant | £20,000 |
| Côst Gwerthiant | £5,000 |
| Elw Grôs | £15,000 |
| Costau Sefydlog a Gorbenion | £10,000 |
| Elw/colled Net | £5,000 |

Cyfanswm Gwerthiant – Côst Gwerthiant

Côst rhedeg y busnes

Elw Net – holl gostau'r busnes (ac eithrio tyniadau)



Busnes Cymru | Business Wales

# Rhagweld Gwerthiannau

- Rhagweld ar sail y farchnad;
  - Yn seiliedig ar ganlyniadau eich ymchwil i'r farchnad.
- Rhagweld gwerthiant yn seiliedig ar adnoddau;
  - Yn seiliedig ar faint y gallwch ei gynhyrchu.
- Rhagweld gwerthiant ar sail gwerth;
  - Yn seiliedig ar y swm mae'n rhaid i chi ei werthu i wneud elw.

# Rhagweld ar Sail y Farchnad

- Defnyddiwch ganfyddiadau ymchwil i'r farchnad i amcangyfrif gwerthiannau.

- Byddwch yn realistig:
  ESIAMPL: Gwely a Brecwast – 8 o gwelyau

  Ymchwil £30 y pen y noson
  
  8 gwelyau x £30 = Rhagweld gwerthiannau o £240 y diwrnod

  Cystadleuwyr yn llawn 75% o'r amser.
  
  75% o £240 = £180 y diwrnod
  
  Peidiwch ac anghofio:
  
  Gwyliau – Haf v Gaeaf – Digwyddiadau arbennig

# Rhagweld gwerthiant yn seiliedig ar adnoddau

- Faint y gallaf ei wneud/capasiti?
- Faint o oriau cynhyrchiol?

PETHAU I YSTYRIED:

- Offer a pheiriannau;
- Deunyddiau crai;
- Deunyddiau pecynnu;
- Argaeledd pobl – wedi eu hyfforddi neu heb eu hyfforddi;
  Gwyliau, amser egwyl ayyb.
- Oes digon o arian ar gael i ariannu'r uchod.

# Rhagweld gwerthiant ar sail gwerth

- Faint sydd angen i mi ei werthu i dalu'r holl gostau a gwneud elw?

- Cyfrifo pwynt adennill costau:

$$\frac{\text{Costau Sefydlog (Cyflogau, rhent, yswiriant.)}}{\text{Pris Gwerthu – Costau uniongyrchol yr uned}} = \text{Pwynt adennill costau}$$

.

$$\frac{£10{,}000}{(£6 - £2)} = 2{,}500 \text{ uned}$$



Busnes Cymru | Business Wales

# Creu eich Rhagolwg Gwerthiant

- Cydbwysedd, gwahanol ddulliau;
- Ceisio bod mor gywir a dibynadwy â phosib.

Tymhorol

Telerau talu

Y tywydd

Y gallu i gynhyrchu

Gwyliau




Prisiau

Digwyddiadau arbennig

Cynigion arbennig

Ffasiwn

Gweithgareddau eich cystadleuwyr

# Mantolen Ariannol

- Cipolwg ar gyflwr ariannol y busnes ar adeg benodol.

- Fe'i defnyddir i asesu gwerth eich busnes;
  - Un o'r pethau cyntaf mae darpar fuddsoddwr neu Rheolwr Banc eisiau ei weld.
- Yn ofynnol gan Dŷ'r Cwmniau (Cwmniau Cyfyngedig) a Chyllid a Thollau E M.
- Bwysig ei ddeallt – gall eich Cyfrifydd neu feddalwedd cyfrifeg eich helpu i'w baratoi.



Busnes Cymru | Business Wales

# Mantolen Ariannol

Eiddo | Dyledion

Arian parod neu yn hawdd i'w trosi'n arian parod

Ar gyfer defnydd tymor hir

| ASEDAU | |
|---|---|
| **Asedau Cyfredol** | |
| Arian parod | 5,000 |
| Cyfrifon a Derbyniwyd | 4,000 |
| Stoc | 11,000 |
| **Cyfanswm Asedau Cyfredol** | **20,000** |
| | |
| **Asedau Sefydlog** | |
| Offer | 2,000 |
| Llai Dibrisiant Cronedig | -200 |
| **Cyfanswm Asedau Sefydlog** | **1,800** |
| | |
| | |
| | |
| | |
| **Cyfanswm Asedau** | **21,800** |

| RHWYMEDIGAETHAU | |
|---|---|
| **Rhwymedigaethau Cyfredol** | |
| Dyledwyr Tymor Byr | 3,000 |
| Cyfrifon yn Daladwy | 2,000 |
| Cyflogau | 5,000 |
| **Cyfanswm Rhwymedigaethau Cyfredol** | **10,000** |
| **Rhwymedigaethau Tymor Hir** | |
| Benthyciad 5 mlynedd | 11,000 |
| | |
| **Cyfanswm Rhwymedigaethau Tymor Hir** | **11,000** |
| **Ecwiti** | |
| Ecwiti'r Perchennog | 800 |
| **Cyfanswm Rhwymedigaethau ac Ecwiti** | **21,800** |

Yr hyn sy'n ddyledus nawr ac mewn 12 mis

Unrhyw beth sy'n ddyledus dros gyfnod hirach

Mae Mantolen ariannol bob amser yn cydbwyso!

CYFANSWM ASEDAU = CYFANSWM RHWYMEDIGAETHAU + ECWITI

R H E O L I E I C H C Y L L I D

Busnes Cymru | Business Wales

# Rheoli Cyllid yn Effeithiol

- Bod â chyllideb gadarn a realistig;
- Cadwch gofnodion clir, cywir a diweddar;
- Cadwch yr holl anfonebau, datganiadau a derbynebau;
- Adolygu'r llif arian yn wythnosol/yn rheolaidd;
- Gwiriwch y Cyfrif Banc ac arian parod yn ddyddiol;
- Cael telerau talu clir a sicrhau bod cwsmeriaid yn ymwybodol ohonynt;
- Anfonebu yn rheolaidd a rheoli talwyr hwyr;
- Ymateb yn brydlon!

# Busnes Cymru  Business Wales

- Gogledd Cymru
- Ffôn: 01745 585 025
- E bost: gogledd@businesswales.org.uk

- **Canolbarth a Gorllewin Cymru**
- Ffôn: 01267 233 749
- E bost: gorllewincymru@businesswales.org.uk

- **De Cymru**
- Ffôn: 01656 868 500
- E bost: southwales@businesswales.org.uk

Cysylltwch hefo'r Tîm

Busnes Cymru | Business Wales

**CYSYLLTU HEFO NI**

**03000 6 03000**

**sian.jones@businesswales.org.uk**

**@_busnescymru**

**Busnes Cymru / Business Wales**

**@busnes.cymru**

**ADBORTH -** http://doo.vote/bwwebw

**https://businesswales.gov.wales/cy**



Busnes | Business
Cymru | Wales

# Diolch yn Fawr

Cwestiynau ar lwyfan " Chat"

Gadewch adborth os gwelwch yn dda

- http://doo.vote/bwwebw

Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
European Regional Development Fund